# COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB DYDD MERCHER, 18 IONAWR 2023, AM 10:00

## Presennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | F D Bletsoe | P Davies | RM Granville |
| S J Griffiths | M L Hughes | M Jones | RL Penhale-Thomas |
| T Thomas | G Walter | AJ Williams | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Chris Morris | Accountant |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

## 41. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Gwahoddedigion:
Dywedodd y Cynghorydd Hywel Williams, Aelod Cabinet dros Adnoddau, y byddai'n ymuno â'r cyfarfod ychydig yn ddiweddarach.

## 42. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Paul Davies fuddiant oherwydd bod aelod o'r teulu yn gweithio yn y Tîm Gorfodi Gwastraff.

## 43. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2023-24 I 2026-27

Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid grynodeb o'r adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023-24 i'r Pwyllgor, a oedd yn nodi blaenoriaethau gwariant y Cyngor, amcanion buddsoddi allweddol a meysydd cyllideb a dargedwyd ar gyfer arbedion angenrheidiol. Roedd y strategaeth yn cynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2023-2027 a chyllideb refeniw ddrafft fanwl ar gyfer 2022-23.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid a'r Tîm cyfan am yr adroddiad cynhwysfawr a thrafododd yr Aelodau y canlynol:

- I ba raddau y byddai'r MTFS drafft yn cyd-fynd ag amcanion newydd yn y Cynllun Corfforaethol ac yn adlewyrchu'r amcanion y flwyddyn nesaf.
- Er bod yr egwyddorion sy'n sail i'r MTFS yn gadarn, byddai'n ddefnyddiol pan gyfarfu BREP y flwyddyn nesaf i weld y cyfrifiadau y tu ôl i gasgliadau cynigion y gyllideb ddrafft.
- Pwysau ar swyddogaethau swyddfa gefn.
- Yr angen am i ymrwymiadau deddfwriaethol cenedlaethol e.e. Digartrefedd, Newid Hinsawdd, Gofal Cymdeithasol, ac ati gael eu hariannu'n llawn gan lywodraeth ganolog a'r sylwadau a wnaed gan y Cabinet a CLILC i ddadlau bod ymrwymiadau deddfwriaethol cenedlaethol yn cael eu hariannu'n llawn.

- Cyllid canlyniadol ar gyfer Gofal a chymorth yng Ngharchar y Parc, darpariaeth Cyfrwng Cymraeg, Prydau Ysgol Gynradd Cyffredinol am Ddim.
- Pa waith sydd wedi cael ei wneud i weithredu'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.
- Beth ellid ei wneud i archwilio galluoedd tai'r Cyngor ei hun yn y tymor hwy i liniaru llety dros dro, ac archwilio atebion gyda phartneriaid RSL a dod â gwagleoedd yn ôl i ddefnydd.
- Potensial ar gyfer archwilio cynhyrchu incwm ychwanegol, adolygu ffioedd a thaliadau, cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn seiliedig ar y cynnydd arfaethedig a'r cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor.
- Mae chwyddiant yn effeithio ar gostau cyflog, costau ynni ar gyfer adeiladau a chontractau'r Cyngor.
- Lleoedd mewn ysgolion ac argaeledd a chynllunio ar gyfer ehangu yn y dyfodol ar gyfer anghenion y boblogaeth.
- Dichonoldeb, y gallu i gyflawni ac effaith arbediad o 2% yn y gyllideb ysgolion ar wariant ar addysg, y posibilrwydd o golli swyddi ac effaith ar ddiffygion.
- Pwysau o roi'r gorau i gyllid Grant tymor byr blaenorol mewn Gofal Cymdeithasol.
- Cynnal darpariaeth rhwyd ddiogelwch os bydd darparwr yn methu.
- Pwysau ar Wasanaethau Oedolion a Phlant a'r angen i amddiffyn.
- Digonolrwydd o £700k ar gyfer Atal Digartrefedd.
- Cynnydd posibl mewn tipio anghyfreithlon os bydd y Tîm Gorfodi Gwastraff yn torri a thanwario mewn Cymunedau.
- Cydweithio â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg.
- Rhannu gofod swyddfa e.e., gyda Heddlu De Cymru.
- Cynnal a chadw eiddo ac adeiladau – asedau posibl ar gyfer gwaredu, gosod Ravenscourt yn rhannol gan ei fod yn cael ei ddefnyddio'n rhannol gan y Tîm MASH a gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio'n agos gyda nhw.
- Pwysau ar Adnoddau Dynol, Cyfreithiol a Chyllid yn effeithio ar Gyfarwyddiaethau, adolygu sut mae pethau'n cael eu gwneud, gwella effeithlonrwydd a chynyddu defnydd digidol.
- Recriwtio a chadw'r gweithlu a lefelau absenoldeb oherwydd salwch, cydbwyso llenwi rolau allweddol i ddarparu gwasanaethau ond rheoli salwch.
- Costau staff Asiantaeth.
- Trawsnewid digidol.
- Cysondeb caffael â strategaeth carbon sero net.
- Potensial ar gyfer defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn.
- Cynyddu cyfradd y cyflog byw gwirioneddol o fis Mehefin 2023 ymlaen.
- Pwysau cost ar gyfer ariannu ffoaduriaid o Wcráin yn llawn ar ôl gadael teuluoedd lletyol.
- Llwybr troed diogel i ysgol i gymryd lle'r angen am fws ac effaith ar yr amgylchedd.
- Sut i roi gwybod i breswylwyr am y cynnydd yn y dreth gyngor a ble mae arian yn cael ei wario ar ba wasanaethau.
- Dim ond 7% o ostyngiadau yn y gyllideb oherwydd newidiadau polisi ac a ddylid edrych ar wasanaethau dewisol i ddiogelu gwasanaethau statudol yn y dyfodol.
- A yw'r tanwariant yng nghyllidebau Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwyr a'r Cyngor Cyfan yn cuddio pwysau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Twf mewn perthynas â chyflog, a heb fod yn gyflog, a £1M wedi'i ddyrannu i CW2.
- Dim ffigurau blynyddoedd yn y dyfodol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a modelu'r galw yn y dyfodol.
- COM 5 yn cynnig arbed arian i ddileu'r cyfraniad i'r RNLI a thrafodaethau parhaus gyda Thraeth Treco ac o bosibl gyda Chyngor Tref Porthcawl.
- A oedd unrhyw ostyngiadau eraill yn y gyllideb wedi cael eu hystyried cyn y rhai a gynigiwyd.

Dywedodd y Cadeirydd fod Aelodau'r Pwyllgor a oedd yn dymuno gofyn cwestiynau i gyd wedi siarad, felly gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach ar gyfer y gwahoddedigion, diolchwyd iddynt am eu presenoldeb a'u gwahodd i adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD:

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r atodiadau, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion canlynol i'w cydgrynhoi a'u cynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet ar y MTFS drafft, gan gynnwys y pwysau arfaethedig ar y gyllideb a'r cynigion i leihau'r gyllideb o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio hwn, fel rhan o'r broses ymgynghori ar y gyllideb:

1. Bod y Cabinet yn ystyried yn ofalus effaith a chost unrhyw ymyrraeth angenrheidiol gan wasanaethau statudol o ganlyniad i ddileu gwasanaethau dewisol, megis y Tîm Gorfodi Gwastraff yn y Gyfarwyddiaeth Gymunedau.

2. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr argymhelliad a wnaed gan BREP sef *bod y Cabinet yn dweud wrth Lywodraeth Cymru bod y Panel yn disgwyl i'r holl ymrwymiadau deddfwriaethol cenedlaethol gael eu hariannu'n llawn er mwyn i'r Cyngor gael y capasiti i'w cyflawni mewn ffordd effeithlon.*

   Bod y Pwyllgor yn parhau i gefnogi'r gwaith o lobïo Llywodraeth Cymru a Llywodraeth ganolog sydd eisoes wedi digwydd fel nad effeithir ar y Grant Cynnal Refeniw gan unrhyw newidiadau polisi.

3. Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i fwy o gydweithio ar draws Cyfarwyddiaethau a mwy o gydweithio o fewn yr awdurdod a phartneriaid allanol; gweithio tuag at ddull gweithredu 'Un Cyngor'.

4. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr argymhelliad a wnaed gan BREP *ei bod yn hanfodol rhoi gwybod i'r cyhoedd am y cynnydd arfaethedig yn lefel y Dreth Gyngor cyn gynted â phosibl gyda rhesymau clir a rhesymeg dros y cynnydd.* Teimlai'r Pwyllgor hefyd y dylid rhoi gwybod yn briodol i'r cyhoedd mai dim ond oddeutu 27 ceiniog sy'n cael ei ariannu o'r Dreth Gyngor am bob £1 sy'n cael ei gwario ar wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.

5. Mewn perthynas â COM5, y Cynnig i Leihau'r Gyllideb o £38,000 drwy gael gwared ar gefnogaeth i RNLI ar gyfer Achubwyr Bywyd ar Draethau Porthcawl, mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch cyllid a ddarparwyd ar gyfer cystadleuaeth golff i annog y cyhoedd i ymweld â Phorthcawl ac y byddai'r Cynnig hwn i Leihau'r Gyllideb yn rhoi'r cyhoedd mewn perygl. Cadarnhaodd argymhelliad BREP y dylid cynnal trafodaethau gyda Chyngor Tref Porthcawl **a Thraeth Treco** ynghylch cyllid posibl, a dylid hefyd ystyried lleihau'r gostyngiad arfaethedig yn y gyllideb.

6. Gan fod statws risg y rhan fwyaf o gynigion i leihau'r gyllideb wedi'i nodi'n goch ac nad ydynt wedi datblygu'n llawn, mae'n hanfodol bod y Cabinet yn ystyried y gallu i gyflawni'r gostyngiadau arfaethedig yn y gyllideb a'r goblygiadau o ran pennu cyllideb gytbwys.

7. O ystyried y gostyngiad arfaethedig o 2% ar gyllidebau dirprwyedig ysgolion a'r gostyngiad dangosol o 1% bob blwyddyn ar ôl hynny ar gyfer y cyfnod MTFS, bod y Cabinet yn rhoi rhagor o fanylion am sut maent yn mynd i gyflawni'r cynnig ac yn ystyried pa effaith y byddai hynny'n ei chael ar ysgolion unigol ac a fyddai'n gwthio unrhyw ysgolion unigol i sefyllfa o ddiffyg.

8. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau cefn swyddfa fel Adnoddau Dynol a chyfreithiol ac y dylid rhoi pwyslais ar yr angen i sicrhau nad yw'r ddarpariaeth weithredol yn cael ei pheryglu.

9. Er mwyn bodloni argymhellion a chasgliadau Arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru, rhaid i'r awdurdod gael tîm cyfreithiol a pharagyfreithwyr digonol, yn hytrach na dibynnu ar staff asiantaeth. Nododd y Pwyllgor, er nad oedd y rolau hyn yn gwbl weladwy i'r cyhoedd, bod ganddynt rôl hanfodol o ran sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu gwella ac argymhellwyd bod y Cabinet yn ystyried hynny wrth ystyried y gyllideb ym meysydd adnoddau dynol a datblygu sefydliadol.

Gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:

10. O ystyried dibyniaeth y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar gyllid grant tymor byr, bod gwerth cyllid grant tymor byr yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf COSC ar 31 Ionawr 2023.

11. Adborth yn dilyn y trafodaethau rhwng y Cabinet a Gweinidog Llywodraeth Cymru ynghylch cymorth i Ffoaduriaid o Wcráin a'u gwesteiwyr.

12. O ran Pwysau Cyllideb CEX1 o £700,000 mewn cymorth digartrefedd, a oes unrhyw grantiau penodol ar gael i'r Cyngor yn y maes hwn a, phan ddaw lleoliad lletyol unigolion o Wcráin i ben, a ellid yn lle hynny talu'r taliadau misol a fyddai wedi cael eu gwneud i westeiwyr i'r Cyngor i helpu i ariannu llety dros dro.

13. Nododd y Pwyllgor fod ffigur cronfa wrth gefn MTFS yn £906,000 ar hyn o bryd ac na fu unrhyw dynnu i lawr eleni. Cynigiodd y Pwyllgor archwilio yn ei gyfarfod nesaf ar 31 Ionawr 2023 a fyddid yn tynnu i lawr o'r gronfa benodol honno a sut y gellid gwneud hynny er mwyn atgyfnerthu gwasanaethau y cynigir eu cwtogi.

14. Bydd nodyn esboniadol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod COSC ar 31 Ionawr 2023 gan bob Cyfarwyddwr Corfforaethol ynghylch a yw'n gallu nodi unrhyw amrywiadau sylweddol (cynnydd neu ostyngiad) yn ei gyllideb ar gyfer 2023-24 ynghyd ag unrhyw naratif.

15. Bod meddiannaeth a'r posibilrwydd o osod esgyll yn Ravenscourt a'r Swyddfeydd Dinesig yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn nodi unrhyw incwm ychwanegol a allai gael ei gynhyrchu ac unrhyw arbedion yn y dyfodol.

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr Argymhellion canlynol gan BREP:

1. Bod proses BREP yn 2023/24 yn dechrau cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn ariannol er mwyn caniatáu ar gyfer trafodaethau manylach ar y gyllideb i alluogi'r Panel i ddarparu Argymhellion mwy ystyrlon. Gofynnodd y Panel iddynt gael y canlynol:

   a. dadansoddiad llawn o'r cyfrifon cyllideb i gynnwys yr holl opsiynau amrywiol sy'n cael eu hystyried gan y Cabinet;
   b. mwy o naratif gan y ganolfan costau; a
   c. gwybodaeth am wasanaethau dewisol a statudol, dadansoddiad cost o'r hyn sy'n statudol a'r hyn sy'n ddewisol ac effaith unrhyw ostyngiadau posibl yn y gyllideb ar bob un.

2. Mynegwyd pryderon ynghylch y risg uchel ynghylch cyflawni'r gostyngiadau arfaethedig yn y gyllideb o ystyried bod statws risg y rhan fwyaf o'r cynigion wedi'u marcio'n goch ac nad ydynt wedi'u cyfrifo eto. Byddai'r Panel wedi hoffi mwy o naratif gan Gyfarwyddwyr/Swyddogion Corfforaethol yn nodi sut y byddent yn cyflawni'r gostyngiadau arfaethedig, gan argymell y dylid darparu'r wybodaeth hon yng Nghyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

7. Roedd y Panel o'r farn y byddai'r cynnig i waredu'r tîm gorfodi gwastraff yn wrthgynhyrchiol ac y byddai'n arwain at gostau uwch ym meysydd gwastraff a gwaredu gwastraff sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon. Argymhellodd y Panel y dylid archwilio dewisiadau eraill yn lle gwaredu'r tîm yn llwyr a chefnogi'r cynnig o uno timau o bosibl i ddarparu llai o wasanaeth yn hytrach na dileu'r tîm gorfodi gwastraff yn llwyr.

13. Yng ngoleuni'r rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y gyllideb gyhoeddus a oedd yn nodi bod ymatebwyr o blaid i'r Dreth Gyngor aros yr un fath, bod ymateb yn cael ei ddarparu i'r ymatebwyr a oedd wedi ymgysylltu i sicrhau eu bod yn deall y rhesymeg y tu ôl i'r gyllideb a'r rheswm dros y penderfyniadau a wnaed i sicrhau eu bod yn teimlo bod eu safbwyntiau'n cael eu gwerthfawrogi a'u bod wedi cael eu hystyried.

44. EITEMAU BRYS

Dim.